OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 543 (Cy.56)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 130, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2013 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

### Diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol

**2.** Yn rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau Optegol (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "NHS sight test fee"—

(a) yn lle "£57.16" rhodder "£57.72"; a

(b) yn lle "£20.70" rhodder "£20.90".

### Diwygio rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol

**3.** Mae rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer amnewid neu drwsio) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£54.20" rhodder "£54.70"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£14.00" rhodder "£14.10".

**Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol**

**4.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 3 o'r Rheoliadau Optegol wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ac wynebwerthoedd talebau — cyflenwi ac amnewid) yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

| *(1) Swm blaenorol* | *(2) Swm newydd* |
|---|---|
| £37.10 | £37.50 |
| £56.40 | £57.00 |
| £82.60 | £83.40 |
| £186.50 | £188.40 |
| £64.20 | £64.80 |
| £81.60 | £82.40 |
| £105.80 | £106.90 |
| £205.10 | £207.20 |
| £191.00 | £192.90 |
| £54.20 | £54.70 |

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£12.10" rhodder "£12.20";

(b) ym mharagraff 1(1)(b) yn lle "£14.60" rhodder "£14.70";

(c) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£61.20", "£54.20" a "£29.30" rhodder "£61.80", "£54.75" a "£29.60" yn eu trefn;

(d) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£61.20" rhodder "£61.80";

(e) ym mharagraff 2(a), yn lle "£14.00" rhodder "£14.10"; ac

(f) ym mharagraff 2(b), yn lle "£35.50" rhodder "£35.90".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Darpariaeth Drosiannol**

**5.** Dim ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 1 Ebrill 2013 neu ar ôl hynny y mae'r symiau a amnewidir gan reoliadau 3 a 4 yn gymwys.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2013

## YR ATODLEN

Rheoliad 4(4)

ATODLEN 3 I'R RHEOLIADAU OPTEGOL FEL Y'I HAMNEWIDIR GAN Y RHEOLIADAU HYN

"SCHEDULE 3

Regulation 19(2) and (3)

VOUCHER VALUES REPAIR

| *(1) Nature of Repair* | *(2) Letter of Codes — Values* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Repair or replacement of one lens | 11.70 | 21.45 | 34.65 | 87.15 | 25.35 | 34.15 | 46.40 | 96.55 | 89.40 |
| Repair or replacement of two lenses | 23.40 | 42.90 | 69.30 | 174.30 | 50.70 | 68.30 | 92.80 | 193.10 | 178.80 |
| Repair or replacement of: | | | | | | | | | |
| the front of a frame | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |
| a side of a frame | 7.10 | 7.10 | 7.10 | 7.10 | 7.10 | 7.10 | 7.10 | 7.10 | 7.10 |
| the whole frame | 14.10 | 14.10 | 14.10 | 14.10 | 14.10 | 14.10 | 14.10 | 14.10 | 14.10" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau a dynnwyd gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol er mwyn cyfeirio at gynnydd o 1% yn y ffioedd ar gyfer profion golwg GIG.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth adbrynu taleb a ddyroddir tuag at y gost o amnewid un lens gyffwrdd ac i gynyddu uchafswm y cyfraniad drwy daleb tuag at y gost o drwsio ffrâm.

Mae rheoliad 4 a'r Atodlen yn diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth talebau a ddyroddir tuag at y gost o gyflenwi ac amnewid sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac amnewid teclynnau optegol.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2013 neu cyn hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.